**AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

**RHEOLAU SEFYDLOG**

## RHAN I : DIFFINIADAU

RHEOL SEFYDLOG 1:

(1) Yn y Rheolau sefydlog hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol, dyma'r ystyron sydd i'r termau hyn:

"awdurdod" - Awdurdod Tân Gogledd Cymru yn gweithredu trwy unrhyw ddull y caniateir iddynt yn gyfreithlon ei fabwysiadu;

"prif swyddog" - y Prif Swyddog Tân, y Dirprwy Brif Swyddog Tân, y Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol, y Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael), y Clerc a'r Trysorydd i'r Awdurdod.

"pwyllgor" - pwyllgor o'r awdurdod;

"clerc" - yw'r Swyddog Monitro ac Ymgynghorydd Cyfansoddol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru

"Dirprwy Glerc" - yw'r Dirprwy Swyddog Monitro a'r Ymgynghorydd Cyfansoddol i Awdurdod Tân Gogledd Cymru

"gweithiwr" - gweithiwr cyflogedig gan yr awdurdod neu ddeiliad swydd lle telir cyflog gan yr awdurdod ar wahân i'r cadeirydd, dirprwy gadeirydd neu aelod o'r awdurdod tân.

**Deleted:** is-gadeirydd

"arweinydd grŵp gwleidyddol - arweinydd grŵp gwleidyddol fel y caiff hynny ei ddiffinio yn Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990;

"cyfarfod" - cyfarfod o'r awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor fel y bo'n briodol;

"aelod" - mewn perthynas â'r awdurdod, aelod o'r awdurdod; mewn perthynas ag unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, rhywun a benodwyd yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw, boed ganddo ef/ganddi hi hawl i bleidleisio ai peidio;

"swyddog monitro" - y sawl a ddynodir dan adran 5 Deddf 1989 (dynodiad ac adroddiadau swyddog monitro) neu, os yw'r person hwnnw'n methu gweithredu oherwydd absenoldeb neu salwch, y sawl a enwebir fel dirprwy iddo ef/iddi hi dan isadran (7) o'r adran honno;

"nifer yr aelodau" - mewn perthynas â'r awdurdod, nifer y bobl y caniateir iddynt weithredu ar yr adeg dan sylw fel aelodau o'r awdurdod, ac, mewn perthynas â phwyllgor neu is-bwyllgor, nifer y bobl y caniateir iddynt weithredu ar yr adeg dan sylw fel aelodau â phleidlais o'r corff;

"y sawl sy'n llywyddu" - rhywun sydd â hawl, neu a benodir, i lywyddu mewn unrhyw gyfarfod;

"grŵp gwleidyddol" - grŵp gwleidyddol fel y caiff hynny ei ddiffinio yn y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990;

"swyddog priodol" - y Clerc i'r Awdurdod Tân ac eithrio mewn perthynas â'r materion hynny lle mai'r Prif Swyddog Tân neu'r Trysorydd sydd wedi ei benodi'n arbennig yn swyddog priodol.

"is-bwyllgor" - is-bwyllgor i bwyllgor;

"Deddf 1972" - Deddf Llywodraeth Leol 1972;

"Deddf 1989" - Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

"Deddf 1994 " - Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994;

"Cynllun Cyfuno 1995" – Gorchymyn Gwasanaethau Tân Gogledd Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995;

“Deddf 2000” – Deddf Llywodraeth Leol 2000;

“Deddf 2004” – Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004;

"holl nifer yr aelodau" - mewn perthynas â’r awdurdod, cyfanswm nifer y bobl a gaiff fod yn aelodau o’r awdurdod, fel y caiff hynny ei ddiffinio yn Rhan III o Gynllun Cyfuno 1995.

"heb sylw" - mewn perthynas â chynnig, eilio neu roi cynnig i bleidlais, heb i neb siarad heblaw i nodi geiriad y cynnig, y ffaith ei fod yn cael ei gynnig, ei eilio neu ei roi i bleidlais, neu (yn achos y sawl sy’n llywyddu) effaith mabwysiadu’r cynnig.

(2) Oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog a’r lluosog yn cynnwys yr unigol.

(3) Bydd unrhyw gyfeiriad mewn unrhyw reol sefydlog at baragraff sydd wedi ei rifo, os nad yw’r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn cyfeirio at baragraff yn y rheol sefydlog honno sy’n dwyn y rhif hwnnw.

**RHAN II: CYFARFODYDD YR AWDURDOD**

RHEOL SEFYDLOG 2: RHEOLAU SEFYDLOG

(1) Ni chaniateir gwneud unrhyw drefniadau lle caiff pwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog weithredu unrhyw hawl sydd gan yr awdurdod i amrywio, diddymu nac ychwanegu at y rheolau sefydlog hyn.

(2) Pan fydd unrhyw gynnig i amrywio, diddymu neu ychwanegu at y rheolau sefydlog hyn yn cael ei gynnig a’i eilio, fe fydd yn cael ei gyfeirio heb unrhyw drafodaeth bellach hyd gyfarfod cyffredin nesaf o’r awdurdod, a bydd y swyddog priodol yn paratoi adroddiad priodol ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

(3) Nid oes modd atal y rheol sefydlog hon na rheolau sefydlog 17, 18(2), a 23.

(4) Gellir atal unrhyw un o’r rheolau sefydlog eraill yn y cyfarfod lle cynigir ei atal, ar yr amod naill ai:

**Deleted:** mewn perthynas ag unrhyw fusnes

(a) y cynhwyswyd rhybudd am y bwriad i gynnig yr ataliad hwn ar agenda’r cyfarfod; neu

(b) bydd o leiaf hanner nifer aelodau’r awdurdod neu bwyllgor neu is-bwyllgor yn bresennol ac o leiaf dau draean ohonynt yn pleidleisio o blaid yr ataliad.

(5) Rhaid i’r swyddog priodol roi copi o’r rheolau sefydlog hyn i bob aelod pan fydd yn cael ei benodi/phenodi.

(6) Ni chaniateir i neb herio mewn unrhyw gyfarfod benderfyniad y sawl sy’n llywyddu yn y cyfarfod hwnnw ynghylch llunio neu weithredu unrhyw un o’r rheolau sefydlog hyn.

RHEOL SEFYDLOG 3: SWYDDOGAETH YR AWDURDOD TÂN

(1) Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn arbennig Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, y Ddeddf Rhagofalon Tân 1971 a Cynllun Cyfuno 1995.

(2) Cymeradwyo y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella.

(3) Cymeradwyo cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniadau gan y cynghorau cyfansoddol.

(4) Arolygu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ac ymdrin ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau diwygiedig.

RHEOL SEFYDLOG 4: CYFARFODYDD CYFFREDIN YR AWDURDOD

(1) Cynhelir pob cyfarfod blynyddol a chyfarfod cyffredin o'r awdurdod yng Ngogledd Cymru ar sail rhaglen a fydd yn cael ei chymeradwyo'n flynyddol.
(2) Cynhelir cyfarfodydd yr awdurdod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn a chynhelir y cyfarfod blynyddol fis Mehefin fan bellaf. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cynnal ar y trydydd dydd Llun yn y mis oni bai fod y Cadeirydd, mewn ymgynghoriad â'r Clerc a'r Prif Swyddog Tân, yn pennu'n wahanol.

RHEOL SEFYDLOG 5: CYFARFODYDD ARBENNIG YR AWDURDOD

(1) Gall Cadeirydd yr awdurdod alw cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ar unrhyw adeg.

(Deddf 1972, Atod. 12. para. 3)

(2) Os bydd y Cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod arbennig o'r awdurdod ar ôl derbyn cais i'r perwyl hwnnw, wedi ei lofnodi gan bum aelod o'r awdurdod, neu, heb iddo ef/iddi hi wrthod gwneud hynny, os bydd y Cadeirydd yn peidio â galw cyfarfod arbennig o fewn saith niwrnod iddo ef/iddi hi dderbyn y cyfryw gais, yna, gall unrhyw bum aelod o'r awdurdod alw cyfarfod arbennig o'r awdurdod, yn union wedi iddo ef/iddi hi wrthod neu ar ddiwedd y saith niwrnod.

(Deddf 1972, Atod12, para 3)

(3) Lle bo unrhyw un neu rai yn penderfynu galw cyfarfod arbennig o'r awdurdod, rhaid iddo ef/iddi hi hysbysu'r swyddog priodol ei fod/bod wedi gwneud hynny, pa fusnes sydd i'w drafod a'r dyddiad a'r amser y gelwir y cyfryw gyfarfod. Wedyn, rhaid i'r swyddog priodol sicrhau bod yr hysbysiadau a'r gwysion sy'n ofynnol gan baragraff 4(2) o Atodlen 12 o Ddeddf 1972 yn cael eu cyhoeddi a'u hanfon.

4) Cadeirydd yr awdurdod fydd yn pennu lleoliad yng Ngogledd Cymru ar gyfer unrhyw gyfarfod arbennig o'r awdurdod.

RHEOL SEFYDLOG 6: Y SAWL SY'N LLYWYDDU MEWN CYFARFODYDD O'R AWDURDOD

(1) Mewn cyfarfod o'r awdurdod, y Cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(2) Os bydd y Cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r awdurdod, yna Dirprwy gadeirydd yr awdurdod, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu, neu

(3) Os bydd Cadeirydd ac Dirprwy gadeirydd yr Awdurdod yn absennol o gyfarfod o'r Awdurdod, yna: bydd aelod arall o'r awdurdod a gaiff ei ddewis gan aelodau'r awdurdod yn llywyddu.

Deleted: Cytuno
Deleted: ar
Formatted: Font color: Auto
Formatted: Underline, Font color: Red
Deleted: ¶
Deleted: Is-gadeirydd
Deleted: Is-gadeirydd

(Deddf 1972, Atod 12, para 5)

(4) Gall y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod ddefnyddio unrhyw bŵer Cadeirydd yr Awdurdod mewn perthynas ag arwain cyfarfod o'r Awdurdod.

(5) Os oes angen dewis aelod o'r awdurdod i lywyddu oherwydd bod y Cadeirydd a'r Dirprwy gadeirydd yn absennol, rhaid i'r swyddog priodol alw ar aelod o'r awdurdod i gynnig bod aelod o'r awdurdod a elwir ganddo ef/ganddi hi yn cymryd y gadair.

Deleted: Is-gadeirydd

(6) Os bydd trafodaeth yn codi ynghylch y cynnig hwnnw, bydd y swyddog priodol yn gweithredu pwerau'r sawl sy'n llywyddu i reoli'r drafodaeth, ac i gadw trefn yn y cyfarfod.

RHEOL SEFYDLOG 7: CWORWM CYFARFODYDD YR AWDURDOD

(1) Ni fydd busnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r awdurdod oni bai fod o leiaf traean o holl nifer aelodau'r awdurdod yn bresennol.

(Cynllun Cyfuno 1995, Rhan III)

(2) Os bydd y sawl sy'n llywyddu yn datgan, mewn unrhyw gyfarfod o'r awdurdod, ac wedi cyfrif nifer yr aelodau, nad oes cworwm yn bresennol, bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio. Os bydd y sawl sy'n llywyddu yna'n credu ei bod yn annhebygol cael cworwm yn bresennol o fewn y pymtheng munud nesaf, bydd y cyfarfod yn dod i ben.

(3) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yn y rheolau sefydlog hyn y bydd rhybuddion o gwestiynau neu gynigion yn syrthio, bydd ystyried yr holl fusnes sydd ar agenda cyfarfod a derfynwyd dan y paragraff blaenorol ac sydd heb ei gwblhau cyn i'r cyfarfod ddod i ben yn cael ei ohirio hyd gyfarfod nesaf yr awdurdod, boed hwnnw'n gyfarfod cyffredin neu arbennig.

RHEOL SEFYDLOG 8: TREFN Y BUSNES YNG NGHYFARFODYDD YR AWDURDOD

(1) Oni bai fod yr awdurdod yn gorchymyn fel arall yn unol â pharagraff (3), trefn y busnes ym mhob cyfarfod o'r awdurdod fydd:

(a) yn absenoldeb y cadeirydd a'r dirprwy gadeirydd, dewis aelod o'r awdurdod i lywyddu;

Formatted: Right: 0.07"

Deleted: is-gadeirydd

(b) yn y cyfarfod blynyddol, ac mewn unrhyw gyfarfod arall sy'n gyfarfod cyntaf ar ôl i swydd y cadeirydd ddod yn wag, ethol cadeirydd;

- Derbyn unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb gan aelodau presennol

Formatted: Underline, Font color: Red

Formatted: Underline, Font color: Red, Welsh

(c) yn y cyfarfod blynyddol, ac mewn unrhyw gyfarfod cyntaf ar ôl i swydd yr dirprwy gadeirydd ddod yn wag, penodi dirprwy gadeirydd;

Deleted: is-gadeirydd

Deleted: is-gadeirydd

(ch) yn y cyfarfod blynyddol, cymeradwyo fel rhai cywir gofnodion cyfarfod blynyddol blaenorol yr awdurdod ac i'r sawl sy'n llywyddu eu llofnodi;

(d) ac eithrio lle bo cofnodion pob cyfarfod cynharach o'r awdurdod wedi eu llofnodi fel rhai cywir, cymeradwyo fel rhai cywir gofnodion cyfarfod cyffredin neu arbennig diwethaf yr awdurdod, a chofnodion unrhyw gyfarfod cyffredin neu arbennig cynharach nad ydynt wedi eu cymeradwyo yn y modd hwnnw, ac i'r sawl sy'n llywyddu eu llofnodi;

(dd) derbyn cyfathrebiadau gan y sawl sy'n llywyddu ac unrhyw ddatganiad angenrheidiol o fuddiant gan unrhyw aelod, neu swyddog;

(e) lle bo cyfarfod wedi ei alw dan reol sefydlog 5, ystyried y busnes a nodwyd yn yr wŷs;

(f) lle bo cyfarfod wedi ei alw i ystyried:

(i) adroddiad gan y swyddog cyllid priodol dan adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988,

(ii) adroddiad gan y swyddog monitro dan adran 5 o Ddeddf 1989,

(iii) ystyried y busnes y galwyd y cyfarfod ar ei gyfer;

Formatted: Indent: Left: 0.5"

(ff) lle bo'r cyfarfod y cyfarfod cyffredin olaf cyn y 15fed o Chwefror o unrhyw flwyddyn, a lle nad yw'r awdurdod eto wedi penderfynu gwneud hynny, asesu neu amrywio'r cyfraniadau y mae'r awdurdodau cyfansoddol yn eu talu i gronfa gyfunol y Gwasanaeth Tân.

(g) derbyn deisebau gan aelodau o'r awdurdod;

(ng) holi ac ateb cwestiynau y rhoddwyd rhybudd ohonynt dan reol sefydlog 10;

(h) ystyried eitemau busnes, os oes rhai, a oedd ar agenda cyfarfod diwethaf yr awdurdod ac na ddeliwyd â hwy ac nad ydynt wedi darfod;

(i) derbyn ac ystyried adroddiadau pwyllgorau ar faterion y mae angen penderfyniad gan yr awdurdod ar eu cyfer, yn y drefn a bennir dan baragraff (2);

(l) derbyn ac ystyried adroddiadau gan brif swyddogion yr awdurdod;

(ll) awdurdodi selio dogfennau i'r graddau y mae angen awdurdod yr awdurdod dan statud neu'r rheolau sefydlog hyn;

(m) ystyried cynigion y cyflwynwyd rhybudd ohonynt gan aelodau o'r awdurdod yn unol â rheol sefydlog 9 yn y drefn y cofnodwyd eu derbyn;

(n) ystyried busnes arall, os oes peth, a nodwyd yn yr wŷs i'r cyfarfod.

(2) Rhaid ystyried yr eitemau busnes dan eitem (i) yn y paragraff diwethaf yn y drefn y cawsant eu rhestru yn agenda'r cyfarfod, a rhaid i'r drefn honno fod yn unol â'r trefniadau a bennwyd gan gadeirydd yr awdurdod.

(3) Gellir amrywio y drefn fusnes ym mharagraff (1) trwy

(a) gyfarwyddyd y sawl sy'n llywyddu, a wneir gyda chydsyniad mwyafrif yr aelodau sy'n bresennol; neu

(b) benderfyniad gan yr awdurdod, a gynigwyd ac a eiliwyd ac a roddwyd i bleidlais heb sylw.

(4) Os bydd y sawl sy'n llywyddu yn penderfynu caniatáu trafod eitem o fusnes nad yw wedi ei chynnwys ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a anfonwyd gyda'r wŷs i'r cyfarfod, oherwydd bod brys, rhaid i'r eitem honno, yn amodol ar unrhyw gyfarwyddyd neu benderfyniad dan baragraff (3), gael ei thrafod ar ddiwedd yr eitemau eraill o fusnes.

RHEOL SEFYDLOG 9: RHYBUDD O GYNIGION

Deleted: ION

(1) Ni chaniateir i unrhyw aelod o'r awdurdod roi rhybudd o fwy na thri chynnig.

(2) Rhaid rhoi rhybudd ysgrifenedig o bob cynnig sydd i'w roi gerbron mewn cyfarfod o'r awdurdod heblaw am gynnig y gellir, dan reol sefydlog 19, ei roi gerbron heb rybudd, a hwnnw wedi ei lofnodi gan yr aelod neu'r aelodau o'r awdurdod sy'n rhoi'r rhybudd. Rhaid i'r cynnig ddatgan ar gyfer pa gyfarfod o'r awdurdod y mae'r rhybudd yn cael ei roi.

(3) Oni bai fod y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod o'r farn y dylid ystyried cynnig oherwydd bod brys, rhaid rhoi rhybudd o bob cynnig y mae angen rhybudd ar ei gyfer i'r swyddog priodol o leiaf pythefnos lawn cyn diwrnod y cyfarfod y rhoddwyd y rhybudd ar ei gyfer.

(4) Ni chaiff y swyddog priodol dderbyn unrhyw rybudd o gynnig na allai, oherwydd unrhyw ddeddfiad neu unrhyw ddarpariaeth yn y rheolau sefydlog hyn heblaw am baragraff (9) isod, ei ystyried yn y cyfarfod y rhoddwyd ef ar ei gyfer.

(5) Rhaid i'r swyddog priodol gofnodi'r amser a'r dyddiad pryd y rhoddwyd pob rhybudd o'r fath iddo ef/iddi hi. Rhaid i'r cofnod hwnnw fod yn agored i'w archwilio gan bob aelod o'r awdurdod.

(6) Rhaid i bob cynnig fod yn berthnasol i ryw fater y mae gan yr awdurdod swyddogaethau mewn perthynas ag ef.

(7) Dim ond yr aelod a roddodd y cynnig gerbron, neu aelod a awdurdodwyd gan y cyfryw aelod, a all gyflwyno'r cynnig.

(8) Lle rhoddwyd cynnig ar gyfer unrhyw gyfarfod, a'r cynnig hwnnw heb gael ei gynnig (am ba reswm bynnag) nac yn un y barnwyd ei fod wedi ei gyfeirio i bwyllgor, bydd y rhybudd yn syrthio, ac ni chaiff y cynnig ei roi gerbron heb rybudd pellach.

(9) Yn amodol ar baragraff (11) isod, lle bo rhybudd o gynnig wedi ei roi ar gyfer unrhyw gyfarfod, a bod y cynnig hwnnw o fewn cylch gwaith unrhyw bwyllgor o'r awdurdod, bernir fod y cynnig wedi ei gyfeirio gan y cyfarfod hwnnw i gyfarfod nesaf y pwyllgor neu'r pwyllgorau y mae'n syrthio o fewn ei gylch/eu gylch gwaith. Bydd memorandwm yn atodiad i gofnodion y cyfarfod hwnnw yn cofnodi'r cyfeiriadau y barnwyd iddynt gael eu gwneud. Os bydd cwestiwn yn codi ynghylch pa bwyllgor y cyfeirir y cynnig iddo, bydd cadeirydd yr awdurdod yn gwneud penderfyniad.

(10) Lle bo cynnig wedi ei gyfeirio, neu y bernir iddo gael ei gyfeirio, i gyfarfod o bwyllgor, rhaid i'r pwyllgor hwnnw ei ystyried yn eu cyfarfod nesaf a rhaid iddynt naill ai adrodd ynghylch y cynnig i gyfarfod nesaf yr awdurdod, neu gynnwys eu barn ynghylch y cynnig yn eu hadroddiad nesaf i'r awdurdod.

(11) Er gwaethaf paragraff (9), gellir ystyried cynnig heb yn gyntaf ei gyfeirio i bwyllgor os bydd yr awdurdod yn penderfynu hynny ar gynnig, y mae angen rhybudd ohono dan baragraff (1) uchod, ond y gellir ei gynnig, ei eilio, a'i roi i bleidlais heb sylw.

(12) Os rhoddir rhybudd dan y rheol sefydlog hon o unrhyw gynnig y gellid, ym marn y swyddog priodol, ei gynnig yn welliant i gynnig i fabwysiadu argymhelliad pwyllgor a fydd gerbron yr awdurdod, ni chaiff ei dderbyn na'i osod ar yr agenda heb gydsyniad cadeirydd yr awdurdod. Os nad yw'n cydsynio rhaid i'r swyddog priodol roi gwybod hynny i'r aelod sy'n rhoi'r rhybudd.

<u>RHEOL SEFYDLOG 10: CWESTIYNAU</u>

(1) Yn ôl ewyllys Cadeirydd yr Awdurdod, caiff aelod o'r Awdurdod ofyn i gadeirydd pwyllgor unrhyw gwestiwn am eitem yn adroddiad y pwyllgor pan fydd yr eitem honno dan ystyriaeth gan yr awdurdod.

(2) Gall aelod o'r awdurdod:-

(a) os oes rhybudd ysgrifenedig wedi ei roi dri diwrnod llawn o flaen llaw i'r swyddog priodol, ofyn unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â materion yr awdurdod i gadeirydd unrhyw bwyllgor;

(b) yn ôl ewyllys y cadeirydd, ofyn iddo/iddi neu i gadeirydd unrhyw bwyllgor unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â mater brys, heb i rybudd fod wedi ei roi, ar yr amod bod copi o'r cwestiwn wedi ei roi i'r swyddog priodol cyn dechrau'r cyfarfod.

(3) Bydd pob cwestiwn yn cael ei ofyn a'i ateb heb drafodaeth ond gall yr holwr(aig) ofyn un cwestiwn atodol sy'n codi o'r ateb.

(4) Pan fo cwestiwn yn cael ei gyfeirio at gadeirydd yr awdurdod neu at gadeirydd pwyllgor a bod yr wybodaeth sy'n cael ei deisyfu ar gael yn un o gyhoeddiadau'r awdurdod, bydd enwi'r cyhoeddiad perthnasol yn ateb digonol. Caniateir darparu ateb ysgrifenedig i unrhyw gwestiwn i'w ddosbarthu i aelodau'r awdurdod ar ddechrau'r cyfarfod.

(5) Ni chaniateir i unrhyw aelod gyflwyno rhybudd am fwy na dau gwestiwn ar gyfer pob cyfarfod.

(6) Ni chaniateir treulio mwy na 30 munud ar gwestiynau dan baragraff (2) mewn unrhyw gyfarfod o'r awdurdod. Os bydd cwestiynau heb eu hateb ar ddiwedd yr adeg honno, rhaid dosbarthu'r cwestiynau a'r atebion ar ffurf ysgrifenedig i'r aelodau a'r wasg, a'u cynnwys maes o law yng nghofnodion y cyfarfod.

RHEOL SEFYDLOG 11: CYFLWYNO DEISEBAU

(1) Mewn cyfarfod o'r awdurdod, caniateir i unrhyw aelod o'r awdurdod gyflwyno deiseb, a honno wedi ei llofnodi gan bobl nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod, sy'n berthnasol i ryw fater y mae gan yr awdurdod swyddogaethau yn ei gylch. Rhaid i'r aelod sy'n cyflwyno'r ddeiseb ei fodloni ei hun fod y ddeiseb yn un briodol i'w derbyn.

(2) Rhaid i aelod sy'n dymuno cyflwyno deiseb roi rhybudd o'i fwriad/bwriad i wneud hynny i'r swyddog priodol cyn dechrau'r cyfarfod lle mae'n dymuno ei chyflwyno.

(3) Rhaid cyfyngu cyflwyno deiseb i ddim mwy na thri munud ac fe'i cyfyngir i ddarllen allan, neu grynhoi, ymbil y ddeiseb, nodi nifer a disgrifiad y rhai a'i llofnododd a gwneud sylwadau cefnogol pellach a fo'n berthnasol i'r ddeiseb ac a fo'n briodol ym marn y sawl sy'n ei chyflwyno.

(4) Rhaid cyflwyno deisebau yn y drefn y mae'r swyddog priodol yn derbyn rhybudd ohonynt.

## RHAN III: PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

RHEOL SEFYDLOG 12: PENODI PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) (a) Bydd Panel Gweithredol yn cynnwys 14 o aelodau â phleidlais, sef Cadeirydd ac Dirprwy gadeirydd yr Awdurdod a dau aelod a ddetholir o blith aelodau'r chwe awdurdod cyfansoddol. Dewisir yr aelodau hyn gan yr Awdurdod cyfansoddol ac fe hysbysir Clerc yr Awdurdod Tân

**Deleted:** Is-Gadeirydd

(b) Bydd cylch gwaith y Panel, a'r swyddogaethau a gyflawnir ganddo, fel y penderfyna'r Awdurdod o bryd i'w gilydd.

(c) Bydd y rheolau sefydlog hyn yn berthnasol i'r Panel Gweithredol fel petai'n un o bwyllgorau'r Awdurdod ac eithrio rheolau sefydlog 14(2) a 17.

(ch) Y Cadeirydd (neu, yn ei (h)absenoldeb, yr Dirprwy gadeirydd) fydd yn cadeirio yng nghyfarfodydd y Panel.

Deleted: Is-Gadeirydd

Bydd Pwyllgor Archwilio yn cynnwys 14 o aelodau â phleidlais nad ydynt yn aelodau o'r Panel Gweithredol. Bydd ganddynt:

Formatted: Underline, Font color: Red

(b) Gylch gorchwyl, a swyddogaethau na ellir eu cyflawni gan neb ond y Pwyllgor, ac o dro i dro bydd y rhain yn cael eu datrys gan yr Awdurdod.

(c) bydd y rheolau sefydlog hyn yn berthnasol i'r Pwyllgor Archwilio yn unol â petaent yn rhan o bwyllgor yr Awdurdod ar wahân i reolau sefydlog 14(2) ac 17.

(ch) Bydd y Pwyllgor Archwilio yn penodi Cadeirydd ac Dirprwy Is-Gadeirydd i'w cadarnhau yn ystod y cyfarfod canlynol o'r Awdurdod.

(2) (a) Bydd Pwyllgor Safonau yn cynnwys 4 aelod annibynnol a 2 aelod o'r Awdurdod, i'w penodi gan yr Awdurdod.

(b) Bydd cylch gwaith y Pwyllgor Safonau fel y penderfyna'r Awdurdod o bryd i'w gilydd.

(c) Bydd rheol sefydlog 18 (cofnodion) yn berthnasol i'r Pwyllgor Safonau ond, ar wahân i hynny, ni fydd y rheolau sefydlog canlynol yr Awdurdod yn berthnasol i'r Pwyllgor.

(ch) Bydd y Pwyllgor Safonau yn rheoleiddio ei hun yn unol â gofynion deddfwriaeth a'r rheolau hynny y mae'r Pwyllgor ei hun yn eu gosod.

(3) (a) Gall yr Awdurdod ar unrhyw adeg benderfynu sefydlu unrhyw bwyllgor arall, gan gynnwys ei gylch gwaith a faint o aelodau â phleidlais fydd ganddo.

(b) Gall yr Awdurdod benderfynu y gellir penodi aelodau dibleidlais, aseswyr ac ymgynghorwyr i bwyllgor o'r fath.

(c ) Bydd penderfyniad i wneud penodiadau dan is-baragraff (b) yn nodi sawl penodiad a wneir a pha swyddogaethau'n ymwneud â'r pwyllgor y gall y rhywrai a benodir felly eu cyflawni.

(ch) Gall yr Awdurdod benderfynu pa gyfyngiadau a gaiff eu gosod ar bŵer unrhyw bwyllgor o'r fath i drefnu i is-bwyllgor gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r pwyllgor.

(d) Gall yr Awdurdod ar unrhyw adeg wneud gwelliannau i benderfyniadau dan y paragraff hwn, gan gynnwys penderfynu y dylai pwyllgor beidio â bod.

(4) Bydd pob pwyllgor sy'n cael ei sefydlu dan paragraff (3), a phob is-bwyllgor sy'n cael ei sefydlu gan bwyllgor o'r fath, yn parhau i gyflawni'r swyddogaethau sydd wedi eu hymddiried iddynt hyd nes i'r awdurdod neu'r pwyllgor, fel y bo'n briodol, benderfynu'n wahanol.

(5) Yn amodol ar adran 102(5), Deddf 1972 (cynghorydd nad ail-etholir i beidio â bod yn aelod o bwyllgor), unrhyw ddarpariaeth statudol berthnasol arall a pharagraff (7), bydd pawb a benodir fel aelod â phleidlais ar bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath a phawb a benodir i weithredu swyddogaethau eraill mewn perthynas â phwyllgor neu is-bwyllgor yn parhau felly hyd nes y caiff y penodiad ei derfynu gan yr awdurdod, yn unol â pharagraff (7).

(6) Pryd bynnag

(a) y mae'n ofynnol i'r awdurdod adolygu dyraniad seddau ar bwyllgorau rhwng grwpiau gwleidyddol; neu

(b) y mae'r awdurdod yn penderfynu gwneud adolygiad o'r fath; neu

(c) y mae'n ofynnol i bwyllgor adolygu dyraniad seddau ar is-bwyllgor rhwng grwpiau gwleidyddol; neu

(ch) y mae pwyllgor yn penderfynu gwneud adolygiad o'r fath, rhaid i'r swyddog priodol gyflwyno adroddiad i'r awdurdod neu'r pwyllgor (fel y bo'n briodol), i ddangos pa ddyraniad o seddau a fyddai, yn ei farn ef/barn hi, yn ymateb orau i ofynion adran 15(4), Deddf 1989.

(7) Yng ngoleuni adroddiad o'r fath, rhaid i'r awdurdod neu'r pwyllgor, fel y bo'n briodol, bennu dyraniad y seddau i grwpiau gwleidyddol.

(8) Pryd bynnag y bo angen penodi aelod â phleidlais o bwyllgor neu is-bwyllgor yn unol â dymuniadau grŵp gwleidyddol y dyrannwyd y sedd iddo, a phryd bynnag y mae angen terfynu penodiad yn unol â'r dymuniadau hynny, yna mae'n rhaid i'r swyddog priodol wneud y penodiad neu derfynu yn unol â hynny.

(9) Caniateir i bob pwyllgor benodi is-bwyllgorau i ba ddibenion bynnag a fo'n briodol yn eu barn hwy ond ni chaniateir penodi unrhyw is-bwyllgor sefydlog heb gymeradwyaeth yr awdurdod ar ôl ystyried adroddiad gan y swyddog priodol.

(10) Caniateir i Gadeirydd ac Dirprwy gadeirydd yr awdurdod fod yn bresennol a siarad (ond nid pleidleisio) mewn cyfarfod o bwyllgor nad ydynt yn aelodau â phleidlais ohono.

Deleted: Is-gadeirydd

(11) Caniateir i'r sawl sydd wedi ei benodi i lywyddu mewn cyfarfodydd pwyllgor, a'i (d)dirprwy, fod yn bresennol a siarad mewn cyfarfod o unrhyw is-bwyllgor a benodir gan y pwyllgor hwnnw, ond ni chaniateir iddo ef/iddi hi bleidleisio oni bai ei fod wedi ei benodi yn aelod â phleidlais ohono.

(12) Mae gan aelod o'r awdurdod, nad oes ganddo ef/ganddi hi fel arall hawl i fod yn bresennol a siarad mewn pwyllgor neu is-bwyllgor, hawl i wneud hynny (ond nid pleidleisio) mewn cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor.

(a) wrth ystyried unrhyw gynnig y rhoddwyd rhybudd ohono, a gynigwyd neu a eiliwyd ganddo ef/ganddi hi mewn cyfarfod o'r awdurdod ac sydd wedi ei gyfeirio i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw; neu

(b) gyda chydsyniad y sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor; neu

(c) trwy roi rhybudd ysgrifenedig o leiaf ddau ddiwrnod llawn i'r swyddog priodol ynghylch ei fwriad/bwriad i wneud hynny a'r mater fydd ar yr agenda yn y cyfarfod lle mae'n dymuno siarad.

RHEOL SEFYDLOG 13: CYFARFODYDD PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Caniateir i'r awdurdod bennu dyddiad, amser a man cyfarfodydd cyffredin o bwyllgorau ac is-bwyllgorau.

(2) Os nad yw'r awdurdod yn pennu dyddiad, amser neu leoliad cyfarfod cyffredin o is-bwyllgor, caiff y pwyllgor a'i penododd wneud hynny.

(3) Os nad yw'r dyddiad, amser neu leoliad cyfarfod cyffredin o bwyllgor neu is-bwyllgor wedi ei bennu gan yr awdurdod neu'r pwyllgor penodi (fel y bo'n briodol), yna rhaid i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw benderfynu ar y manylion hynny ar gyfer y cyfarfod nas penderfynwyd rywfodd arall:

ond:

(a) ar gyfer cyfarfod cyffredin cyntaf unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, caiff cadeirydd yr awdurdod neu, os penodwyd rhywun i lywyddu mewn pwyllgor, y person hwnnw, benderfynu ar unrhyw fanylion nad ydynt wedi eu penderfynu rywfodd arall;

(b) ar gyfer unrhyw gyfarfod arall o bwyllgor neu is-bwyllgor, caiff cadeirydd yr awdurdod neu'r sawl a benodwyd i lywyddu yn y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw, ar ôl ymgynghori (yn gymaint ag y bo modd) â'r personau hynny yr ymddengys iddo ef/iddi hi eu bod yn gynrychioladol o'r grwpiau gwleidyddol y dyrannwyd seddau iddynt ar y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, ddileu neu newid unrhyw fanylion am y lleoliad, y dyddiad neu'r amser a bennwyd eisoes ar gyfer cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, ar wahân i un a alwyd dan baragraff (5).

(4) Caniateir i'r sawl a benodwyd i lywyddu mewn cyfarfodydd o bwyllgor neu is-bwyllgor, ei (d)dirprwy, neu cadeirydd yr awdurdod, alw cyfarfod arbennig o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

(5) Os,

(a) derbynnir cais am gyfarfod arbennig o bwyllgor neu is-bwyllgor, wedi ei lofnodi gan o leiaf draean nifer aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, pa un bynnag sydd fwyaf, a

(b) bydd ef/hi wedi gwrthod galw cyfarfod neu, heb iddo ef/iddi hi wrthod, nid oes cyfarfod arbennig wedi ei alw o fewn saith niwrnod o gyflwyno'r cais.

(6) Os bydd unrhyw un yn penderfynu galw cyfarfod arbennig o bwyllgor neu is-bwyllgor, rhaid iddo ef/iddi hi roi rhybudd yn ddi-oed ei fod/bod wedi gwneud hynny i'r swyddog priodol, gan nodi pa fusnes y bwriedir ei drafod. Rhaid i'r swyddog priodol roi rhybudd yn ddi-oed i holl aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor a phawb sydd â hawl i dderbyn eu papurau.

(7) Caniateir cyflwyno unrhyw gais dan baragraff (5) trwy ei adael gyda'r swyddog priodol.

RHEOL SEFYDLOG 14: RHYWRAI SY'N LLYWYDDU MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Os penodir y Cadeirydd a'r Dirprwy gadeirydd yn aelodau â phleidlais o bwyllgor, y Cadeirydd (neu, yn ei (h)absenoldeb, yr Dirprwy gadeirydd) fydd yn cadeirio yng nghyfarfodydd y pwyllgor.

Deleted: Is-Gadeirydd

Deleted: Is-Gadeirydd

(2) Yn amodol, lle bo'n briodol, ar baragraff (1) rhaid i bob pwyllgor neu is-bwyllgor yn eu cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol yr awdurdod benodi rhywun o blith eu haelodau â phleidlais i lywyddu yn eu cyfarfodydd am y flwyddyn i ddod, a rhaid iddynt, yn yr un modd, benodi rhywun i lywyddu yn absenoldeb y person cyntaf.

(3) Os yw'r personau a benodwyd dan baragraff blaenorol y rheol sefydlog hon yn absennol, rhaid i gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor benodi, o blith yr aelodau â phleidlais sydd yn bresennol, rywun i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

(4) Pryd bynnag y bo angen i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor benodi rhywun i lywyddu, rhaid i'r swyddog priodol alw ar aelod â phleidlais o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor i gynnig bod aelod â phleidlais cymwys o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, a enwir gan yr aelod hwnnw/honno, yn cymryd y gadair.

(5) Os bydd trafodaeth yn codi, rhaid i'r swyddog priodol weithredu pwerau'r sawl sy'n llywyddu i reoli'r drafodaeth honno ac i gadw trefn yn y cyfarfod.

RHEOL SEFYDLOG 15: CWORWM PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) Ni chaniateir trin unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod o bwyllgor nac is-bwyllgor oni bai fod o leiaf traean nifer aelodau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, fel y bo'n briodol, yn bresennol.

(2) Cymhwysir darpariaethau rheol sefydlog 7 i gyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor lle nad oes cworwm yn bresennol fel y byddent i'w cymhwyso petai'n gyfarfod o'r awdurdod.

RHEOL SEFYDLOG 16: TREFN Y BUSNES MEWN PWYLLGORAU AC IS-BWYLLGORAU

(1) O leiaf saith niwrnod llawn cyn bob cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor, neu cyn gynted ag y gelwir y cyfarfod, pa un bynnag sydd hwyraf, rhaid i'r swyddog priodol anfon copi o'r agenda ar gyfer y cyfarfod at bob aelod â phleidlais a phawb arall sydd â hawl i dderbyn papurau'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

(2) Rhaid i'r agenda gynnwys:

(a) pob eitem o fusnes a gyfeiriwyd neu y bernir ei bod wedi ei chyfeirio i'r pwyllgor neu i'r is-bwyllgor gan yr awdurdod neu gan bwyllgor neu is-bwyllgor arall, fel y bo'n briodol;

(b) pob adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor gan y Prif Swyddog Tân, y Clerc i'r Awdurdod, y Trysorydd i'r Awdurdod neu unrhyw brif swyddog arall;

(c) unrhyw eitem o fusnes y cyfarwyddwyd ei chynnwys gan y sawl a benodwyd i lywyddu yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor; ac

(ch) unrhyw eitem arall o fusnes y rhoddwyd y rhybudd sy'n ofynnol amdani i'r swyddog priodol gan aelod o'r awdurdod, p'un ai yw'n aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor, ac sydd o fewn cylch gwaith y pwyllgor neu'r is-bwyllgor; ond ni chaniateir i unrhyw aelod (ar wahân i'r sawl a benodwyd i lywyddu yng nghyfarfodydd o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor) roi rhybudd o fwy nag un eitem o fusnes ar gyfer unrhyw gyfarfod.

- I dderbyn datganiadau o ddiddordeb gan Aelodau'r Awdurdod

(3) Y rhybudd angenrheidiol yw pedwar diwrnod ar ddeg llawn yn ysgrifenedig cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor.

(4) Caniateir i unrhyw aelod o'r awdurdod, boed yn aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor ai peidio, ac unrhyw aelod arall o'r is-bwyllgor perthnasol:

(a) os rhoddwyd tri diwrnod llawn o rybudd ysgrifenedig i'r swyddog priodol, yr hawl i ofyn i gadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor unrhyw gwestiwn sy'n ymwneud â busnes y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw;

(b) yn ôl ewyllys cadeirydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, yr hawl i ofyn iddo ef/iddi hi unrhyw gwestiwn ar fater brys, na roddwyd rhybudd ohono, ar yr amod y rhoddwyd copi o'r cyfryw gwestiwn i'r swyddog priodol cyn y cyfarfod.

Bydd paragraffau 3 i 6 o Reol sefydlog 10 hefyd yn cael eu cymhwyso i gwestiynau sy'n cael eu gofyn yn unol â'r paragraff hwn.

(5) Yn amodol ar unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y sawl a benodwyd i lywyddu yng nghyfarfodydd y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, rhaid trefnu'r eitemau busnes yn y drefn sydd orau ym marn y swyddog priodol i sicrhau yr ymdrinnir â'r busnes yn effeithiol.

Dileu Rheol Sefydlog 17 gan nad oes ei angen

**RHAN IV: CYNNAL CYFARFODYDD**

**Formatted:** Not Highlight

**Formatted:** Bullets and Numbering

**Deleted:** 'mutatis mutandis'

**Deleted:** w

**Deleted:** i

**Deleted:** dan y

**Deleted:** RHEOL SEFYDLOG 17: CYFEIRIO PENDERFYNIADAU YN UWCH¶
¶
(1) Lle y pleidleisiwyd ar fater perthnasol gan bwyllgor neu is-bwyllgor ac, yn union ar ôl datgan canlyniad y bleidlais, cynigir penderfyniad dan y rheol sefydlog hon a'i gymeradwyo gan ddim llai na chwarter yr aelodau â phleidlais sydd yn bresennol ar y pryd, rhaid ei gyfeirio –¶
¶
(a) yn achos penderfyniad pwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf yr awdurdod; ac¶
¶
(b) yn achos penderfyniad gan is-bwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf y pwyllgor ("y pwyllgor priodol") a ffurfiodd yr is-bwyllgor hwnnw.¶
¶
(2) Ni ddaw penderfyniad ar fater dan baragraff (1) i rym nes cael ei adolygu a'i gymeradwyo:¶
¶
(a) gan yr awdurdod, lle gwnaed y penderfyniad gan bwyllgor; a¶
¶
(b) gan y pwyllgor priodol, lle gwnaed y penderfyniad gan is-bwyllgor.¶
¶
(3) Ni ddehonglir dim ym mharagraff (1) na (2) uchod fel ag i rwystro mater a gyfeirir i bwyllgor (ac eithrio cydbwyllgor) dan baragraff (1)(b) rhag cael ei gyfeirio gan pwyllgor hwnnw i'r awdurdod dan baragraff (1)(a).¶
¶
(4) Ym mharagraff (1) uchod, ystyr mater perthnasol yw mater sy'n codi mewn perthynas â swyddogaethau sydd yn cael eu cyflawni gan:¶
¶
(a) bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod yn ôl trefniadau a wnaed dan adran 101 o Ddeddf 1972; ¶
¶
a heblaw am:¶
¶
fater sy'n ymwneud â phenodi, disgyblu neu ddiswyddo swyddog o'r awdurdod;¶
¶
mater y mae'r pwyllgor neu (fel y bo'n briodol) yr is-bwyllgor wedi gwrando ar sylwadau yn ei gylch gan unrhyw berson heblaw am aelod neu swyddog o'r awdurdod.¶ ... [1]

RHEOL SEFYDLOG 18: COFNODION

(1) Yn amodol ar baragraff (2) a (2A), rhaid cyflwyno cofnodion pob cyfarfod o'r awdurdod, o unrhyw bwyllgor neu o unrhyw is-bwyllgor i'r cyfarfod hwnnw neu i'r cyfarfod addas nesaf o'r corff dan sylw, a'u llofnodi yno.

(2) Mewn perthynas ag unrhyw gyfarfod o'r awdurdod, lle mai cyfarfod a elwir dan paragraff (3) (cyfarfodydd arbennig), Atodlen 12 o Ddeddf 1972, yw'r cyfarfod nesaf o'i fath, y cyfarfod nesaf wedyn o'r awdurdod (a hwnnw'n gyfarfod a elwir heb fod dan y paragraff hwnnw) fydd y cyfarfod addas nesaf at bwrpas paragraff (1).

(2A) Mewn perthynas â chyfarfod blynyddol yr awdurdod, cyfarfod blynyddol nesaf yr awdurdod fydd y cyfarfod addas nesaf at bwrpas paragraff (1).

(3) Rhaid i'r sawl sy'n llywyddu gynnig bod y cofnodion a gyflwynir i'r cyfarfod i'w cymeradwyo yn gofnod cywir o'r cyfarfod hwnnw, neu o gyfarfod blaenorol penodol, fel y bo'n briodol.

(4) Ni chaniateir unrhyw drafodaeth ar y cofnodion, heblaw am eu cywirdeb. Rhaid codi unrhyw gwestiwn ynglŷn â'u cywirdeb trwy gynnig. Os na chodir unrhyw gwestiwn o'r fath neu, os codir cwestiwn, cyn gynted ag y byddir wedi ymdrin ag ef, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu lofnodi'r cofnodion.

(5) Rhaid i'r holl gofnodion fod yn Gymraeg a Saesneg.

RHEOL SEFYDLOG 19: CYNIGION A GWELLIANNAU

(1) Caniateir i aelod â phleidlais wneud y cynigion canlynol heb rybudd mewn unrhyw gyfarfod lle byddent mewn trefn:

(a) penodi rhywun i lywyddu yn y cyfarfod lle gwneir y cynnig;

(b) cynigion yn ymwneud â chywirdeb y cofnodion;

(c) cynigion dan reol sefydlog 8(3) (newid trefn busnes);

(ch) cynigion i ymestyn y cyfyngiad amser i areithiau;

(d) "bod yr Awdurdod (neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor) yn mynd ymlaen at y busnes nesaf";

(dd) "bod y cwestiwn yn awr i'w roi i bleidlais";

(e) "bod y drafodaeth yn awr i'w gohirio";

(f) "bod yr awdurdod (neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor) yn awr yn cael ei ohirio";

(ff) cynigion dan reol sefydlog 2(4)(b) (atal rheolau sefydlog heb rybudd);

(g) cynigion yn unol ag adran 100A(2) neu (4), Deddf 1972, i gau'r cyhoedd o gyfarfod lle mae'n debygol fel arall y bydd gwybodaeth sydd wedi ei heithrio neu sy'n gyfrinachol yn cael ei datgelu;

(ng) cynigion sy'n rhoi caniatâd yr awdurdod, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor lle bo angen hynny dan y rheolau sefydlog hyn;

(h) cynigion i gyfeirio deiseb a gyflwynwyd i'r awdurdod i bwyllgor i'w hystyried;

(i) lle cyfeiriwyd mater i bwyllgor neu is-bwyllgor, cynnig i benodi pwyllgor neu is-bwyllgor arbennig i ystyried y mater;

(l) cynigion dan reol sefydlog 22 (atal ymddygiad afreolus) nad yw aelod a enwyd i'w glywed ymhellach neu ei fod yn ymadael â'r cyfarfod;

(ll) cynigion i awdurdodi selio dogfennau;

(m) cynigion yn codi o ohebiaeth neu eitemau eraill a nodir yn yr wŷs i'r cyfarfod.

(2) Pan fydd adroddiad neu argymhelliad gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog yn cael ei hystyried, caniateir i aelod â phleidlais gynnig mabwysiadu'r adroddiad neu'r argymhelliad ac unrhyw benderfyniadau yn sgìl ei fabwysiadu, heb rybudd.

(3) Caniateir i aelod â phleidlais gynnig gwelliant i gynnig heb rybudd ond rhaid iddo fod yn berthnasol i'r cynnig. Ni chaniateir cynnig gwelliant ar welliant.

(4) Rhaid i welliant fod naill ai i gyfeirio'r mater i bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'w ystyried (neu ei ailystyried), i adael geiriau allan, neu i ychwanegu neu roi i mewn geiriau eraill, ond ni chaniateir i'r geiriau a adewir allan, a roddir i mewn neu a ychwanegir, gael yr effaith o negyddu'r cynnig sydd gerbron y cyfarfod. Yn achos cynnig i fabwysiadu adroddiad pwyllgor neu is-bwyllgor, nid yw gwelliant perthnasol i un neu fwy o eitemau yn yr adroddiad nad yw'n cynnwys y cyfan o'r adroddiad yn negyddu'r cynnig felly.

Deleted: g

Deleted: negyddol

(5) Gyda chaniatâd y cyfarfod, a roddir heb drafodaeth, caniateir i aelod â phleidlais:

(a) newid cynnig y rhoddodd rybudd ohono; neu

(b) gyda chaniatâd pellach yr eilydd, newid cynnig a gynigwyd ac a eiliwyd, os (yn y naill achos a'r llall) yw'r newidiad yn un y gellid ei wneud fel gwelliant iddo.

(6) Gyda chaniatâd yr eilydd (os yw ef/hi yn dal yn bresennol) a'r cyfarfod, a roddir heb drafodaeth, caniateir i gynigydd dynnu cynnig neu welliant yn ôl. Ni chaniateir i aelod siarad i gynnig neu welliant o'r fath ar ôl i'r cynigydd ofyn am gydsyniad i'w dynnu'n ôl, oni bai fod cydsyniad o'r fath wedi cael ei wrthod.

(7) Ac eithrio o dan rheol sefydlog 12(3), ni chaniateir cynnig unrhyw gynnig na gwelliant i ddiddymu unrhyw benderfyniad o eiddo'r awdurdod a basiwyd yn y chwe mis blaenorol neu sydd yn gofyn am yr un peth ag un a wrthodwyd o fewn y cyfnod hwnnw:

ond caniateir cynnig o'r fath mewn cyfarfod o'r awdurdod os:

(a) yw pwyllgor neu is-bwyllgor yn ei argymell; neu

(b) rhoddwyd rhybudd o gynnig o'r fath gan y nifer sy'n cyfateb i gworwm yr awdurdod.

(8) Nid oes unrhyw bŵer i ddiddymu unrhyw benderfyniad priodol y gweithredwyd arno.

(9) Lle bo'n rhaid cael caniatâd yr awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor ar gyfer unrhyw beth, caniateir rhoi'r caniatâd hwnnw naill ai:

(a) trwy i'r sawl sy'n llywyddu ofyn i'r cyfarfod a oes unrhyw wrthwynebiad i roi'r caniatâd ac, oni wneir unrhyw wrthwynebiad, trwy iddo ef/iddi hi roi'r caniatâd hwnnw; neu

(b) os gwneir gwrthwynebiad, neu os yw'r sawl sy'n llywyddu yn dewis, trwy wneud cynnig, ei eilio a'i roi gerbron y cyfarfod.

(10) Os bydd unrhyw gwestiwn yn codi, a fyddai'n debygol o olygu datgelu i aelodau'r cyhoedd wybodaeth eithriedig sy'n perthyn i'r categorïau a ddisgrifir yn Rhannau 4 i 6, Atodlen 12A, Deddf 1972, ni cheir trafod y cwestiwn hwnnw nes bod cynnig wedi ei wneud i gau allan y cyhoedd a bod pleidlais wedi ei chymryd ar y cynnig hwnnw.

RHEOL SEFYDLOG 20: RHEOLAU TRAFODAETH (CYFFREDINOL)

(1) Bydd y rheolau trafod yn y rheol sefydlog hon yn berthnasol i bob cyfarfod o'r awdurdod a phob pwyllgor ac is-bwyllgor.

Cynigion a gwelliannau

(2) Ni chaniateir trafod cynnig neu welliant oni bai ei fod wedi ei gynnig a'i eilio.

(3) Wrth eilio cynnig neu welliant, caniateir i aelod gadw ei araith hyd adeg ddiweddarach yn y drafodaeth trwy ddatgan ei fwriad i wneud hynny.

(4) Pan fydd unrhyw gynnig na roddwyd rhybudd ohono, neu unrhyw welliant, wedi ei gynnig a'i eilio, caniateir i'r sawl sy'n llywyddu fynnu ei fod yn cael ei roi yn ysgrifenedig a'i gyflwyno iddo ef/iddi hi cyn ei drafod ymhellach.

(5) Ni chaniateir cynnig a thrafod ond un gwelliant ar y tro. Ni chaniateir cynnig unrhyw welliant pellach:

(a) oni bai fod y cynigydd wedi rhoi rhybudd ohono cyn i'r gwelliant yn union o'i flaen gael ei roi i bleidlais;

(b) hyd nes bydd y cyfarfod wedi ymdrin â phob gwelliant a gynigwyd o'r blaen.

Gall y sawl sy'n llywyddu ganiatáu trafod dau neu'n rhagor o welliannau (ond nid pleidleisio arnynt) gyda'i gilydd os yw ef/hi o'r farn y byddai hyn yn hwyluso trefn briodol y busnes.

(6) Os na fydd gwelliant yn cario, caniateir cynnig gwelliannau eraill ar y cynnig gwreiddiol. Os bydd gwelliant yn cario, bydd y cynnig fel y mae wedi ei wella yn cymryd lle'r cynnig gwreiddiol a dyna fydd y cynnig y gellir cynnig unrhyw welliant pellach arno. Pryd bynnag nad yw unrhyw welliant terfynol yn cael ei gario, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu roi'r cynnig perthnasol i bleidlais.

Areithiau

(7) Os bydd dau neu fwy o aelodau yn cynnig siarad, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu alw ar un i siarad a, lle bo hynny'n briodol, alw ar gefnogwyr a gwrthwynebwyr y mater a drafodir i siarad bob yn ail.

(8) Pan fydd aelod yn siarad rhaid iddo ef/iddi hi annerch y sawl sy'n llywyddu.

(9) Rhaid i aelod siarad mewn perthynas â'r mater dan sylw neu i eglurhad personol neu bwynt o drefn dan ddarpariaethau'r paragraff nesaf.

**Deleted:** gyfeirio'i (h)araith i'r

(10) Caniateir i unrhyw aelod siarad ar bwynt o drefn neu mewn eglurhad personol, a bydd ganddo ef/ganddi hi hawl i wrandawiad yn syth. Rhaid i bwynt o drefn ymwneud yn unig â thoriad honedig ar ddarpariaeth statudol benodol neu â rheol sefydlog benodol, a'r modd, yn ei farn ef/barn hi y bu torri arno. Rhaid i'r sawl sy'n rhoi eglurhad personol gyfyngu ei sylw i ryw ran

arbennig o araith flaenorol ganddo ef/ganddi hi yn y ddadl bresennol yr ymddengys efallai ei bod wedi ei chamddeall.

(11) Ni fydd penderfyniad y sawl sy'n llywyddu ynglŷn â phwynt o drefn neu a yw eglurhad personol i'w ganiatáu yn agored i drafodaeth heblaw mewn perthynas â chynnig y rhoddwyd rhybudd priodol ohono.

(12) Pryd bynnag y bydd y sawl sy'n llywyddu yn galw'r cyfarfod i drefn yn ystod dadl, rhaid i aelod sy'n siarad ar y pryd dewi, ac os yw'n sefyll rhaid iddo ef/iddi hi aileistedd, a rhaid i'r awdurdod neu'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor ostegu.

Cynigion ategol

(13) Pan fydd cynnig yn cael ei drafod, ni chaniateir gwneud unrhyw gynnig arall heblaw'r isod:

(a) gwella'r cynnig;

(b) cynnig i gloi dan y paragraff nesaf;

(c) cynnig dan reol sefydlog 22 (atal ymddygiad afreolus);

(ch) cynnig dan adran 100A(2) neu (4) Deddf 1972 (cau allan y cyhoedd).

(14) Caniateir y cynigion a ganlyn i gloi yn ystod trafodaeth ar gynnig arall ("y cynnig gwreiddiol"). Rhaid eu cynnig, eu heilio a'u rhoi heb drafodaeth. Os cynigir ac os eilir y cynnig, yna rhaid i'r sawl sy'n llywyddu weithredu fel a ganlyn:

(a) "bod y cyfarfod yn mynd ymlaen at y busnes nesaf" rhaid i'r sawl sy'n llywyddu ganiatáu i'r sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol ateb, ac yna roi i bleidlais y cynnig i fynd ymlaen at y busnes nesaf; os bydd y cynnig hwnnw'n cario, bydd y cynnig gwreiddiol yn syrthio;

(b) "y rhoddir y mater yn awr i bleidlais"

os bydd y sawl sy'n llywyddu o'r farn nad yw'r mater sydd gerbron y cyfarfod wedi ei drafod yn ddigonol, gall wrthod derbyn y cynnig; os bydd yn derbyn y cynnig, rhaid iddo ef/iddi hi roi'r cynnig i bleidlais yn ddi-oed fod y mater i'w roi i bleidlais yn awr; os bydd hwn yn cario, rhaid iddo ef/iddi hi ganiatáu i'r sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol (mewn cyfarfodydd o'r awdurdod) unrhyw hawl i ateb sydd ganddo ef/ganddi hi dan reol sefydlog 21(4) ac (mewn cyfarfodydd pwyllgorau neu is-bwyllgorau eraill) hawl i ateb am ddim mwy na thri munud, a rhaid iddo ef/iddi hi wedyn roi'r cynnig hwnnw i bleidlais;

(c) "bod y ddadl yn awr i'w gohirio"; a

(ch) "bod y cyfarfod yn awr i'w ohirio";

os bydd y sawl sy'n llywyddu o'r farn bod y mater sydd gerbron y cyfarfod wedi ei drafod yn ddigonol, caiff wrthod derbyn yr un o'r cynigion hyn a chynnig yn lle bod y cwestiwn yn awr i'w roi i bleidlais; os bydd o'r farn nad yw'r mater wedi ei drafod yn ddigonol ac na ellir yn rhesymol ei drafod yn ddigonol ar yr achlysur hwnnw, rhaid iddo ef/iddi hi roi'r cynnig i ohirio i bleidlais, heb roi'r hawl i'r sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol ateb ar yr achlysur hwnnw; wedyn rhaid i'r cynnig gwreiddiol neu'r busnes sy'n weddill aros heb ei gwblhau hyd gyfarfod nesaf yr awdurdod, y pwyllgor neu'r is-bwyllgor, fel y bo'n briodol.

(15) (a) Ym mhob cyfarfod bydd gan yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yr un statws a'r un dilysrwydd;

(b) bydd gan bawb yr hawl i siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg pan fydd yn siarad mewn unrhyw gyfarfod.

(c) rhaid i'r Clerc i'r Awdurdod drefnu i ddarparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ym mhob cyfarfod;

(ch) yn absenoldeb cyfieithu ar y pryd, caniateir i fusnes cyfarfod fynd yn ei flaen, ond rhaid i'r sawl sy'n llywyddu sicrhau ar gais unrhyw aelod (gan gynnwys y siaradwr) y caiff union eiriau unrhyw gynnig, welliant, gwestiwn, ateb neu bwynt o drefn ac o leiaf sylwedd unrhyw araith neu sylw eu cyfieithu, ond ni fydd unrhyw fethiant anfwriadol i gydymffurfio â'r rheol hon neu unrhyw wall anfwriadol yn y cyfieithiad yn annilysu unrhyw benderfyniad.

<u>RHEOL SEFYDLOG 21: RHEOLAU TRAFODAETH (CYFARFODYDD YR AWDURDOD)</u>

(1) Tra bydd aelod yn siarad, rhaid i'r aelodau eraill barhau i fod yn ddistaw oni bai eu bod yn siarad i wneud pwynt o drefn neu eglurhad personol.

(2) Heblaw gyda chaniatâd yr awdurdod, a roddwyd heb sylw, ni chaniateir i'r sawl sy'n gwneud cynnig siarad am fwy na 10 munud ac ni chaniateir i unrhyw siaradwr arall siarad am fwy na 5 munud. I ddiben y paragraff hwn, nid gwneud cynnig y mae rhywun sy'n cynnig gwelliant, ac nid yw'r amser a ganiateir i'r sawl sy'n gwneud cynnig yn cynnwys unrhyw amser a ganiateir dan hawl i ateb.

(3) Ni chaniateir i aelod sydd wedi siarad ar unrhyw gynnig siarad eto tra trafodir y pwnc hwnnw, heblaw:

(a) i siarad unwaith ar welliant a gynigwyd gan aelod arall;

(b) os yw'r cynnig wedi ei wella ers iddo ef/iddi hi siarad ddiwethaf, i gynnig gwelliant pellach;

(c) os oedd ei (h)araith gyntaf ar welliant a gynigwyd gan aelod arall, i siarad ar y prif fater, pa un ai y cafodd y gwelliant y siaradodd amdano ei gario ai peidio;

(ch) i arfer yr hawl i ateb dan baragraff (5) neu dan reol sefydlog 20(14);

(d) ar bwynt o drefn neu fel eglurhad personol dan reol sefydlog 20(10).

(4) Mae gan y sawl sy'n gwneud y cynnig hawl i ateb ar derfyn dadl ar y cynnig, yn union cyn y caiff ei roi i bleidlais. Os bydd gwelliant yn cael ei gynnig, bydd gan y sawl a wnaeth y cynnig gwreiddiol hawl i ateb ar derfyn y drafodaeth ar y gwelliant ond ni chaniateir iddo ef/iddi hi siarad fel arall. Ni fydd gan y sawl sy'n cynnig gwelliant hawl i ateb y ddadl ar y gwelliant hwnnw. Ni chaniateir i aelod sy'n defnyddio hawl i ateb gyflwyno unrhyw fater newydd.

<u>RHEOL SEFYDLOG 22: ATAL YMDDYGIAD AFREOLUS</u>

(1) Os yw'r sawl sy'n llywyddu o'r farn bod aelod wedi camymddwyn, neu ei fod yn camymddwyn, trwy anwybyddu penderfyniad y cadeirydd yn barhaus, neu drwy ymddwyn yn afreolus, yn amhriodol neu'n dramgwyddus, neu drwy rwystro gwaith y cyfarfod yn fwriadol, gall hysbysu'r cyfarfod o'r farn honno, a gweithredu yn un o'r ffyrdd isod, unai ar wahân neu un ar ôl y llall:

(a) cynnig nad yw'r aelod a enwyd i'w glywed rhagor; ni fydd angen eilio'r cynnig hwn ond caiff ei roi, yn hytrach, i bleidlais a phenderfynir arno heb sylw; os bydd yn cario, ni chaniateir i'r aelod a enwyd siarad wedyn yn y cyfarfod hwnnw;

(b) cynnig bod yr aelod dan sylw yn gadael y cyfarfod; ni fydd angen eilio'r cynnig hwnnw, ond y caiff ei roi, yn hytrach, i bleidlais a phenderfynir arno heb sylw; os bydd yn cario, rhaid i'r aelod adael y cyfarfod ar unwaith;

(c) gohirio'r cyfarfod am bymtheng munud neu am gyfnod sy'n ymddangos yn briodol iddo ef/iddi hi.

(2) Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y gweithgareddau neu'n ymyrryd mewn unrhyw gyfarfod, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu ei r(h)ybuddio o'r hyn y gellid ei wneud dan y rheol sefydlog hon. Os bydd yn parhau i dorri ar draws neu i ymyrryd, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu orchymyn iddo ef/iddi hi adael yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod. Os na fydd yn mynd, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu orchymyn iddo ef/iddi hi gael symud. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn creu cynnwrf yn gyson, caniateir i'r sawl sy'n llywyddu ohirio'r cyfarfod am bymtheng munud neu am ba gyfnod bynnag sy'n ymddangos yn briodol iddo ef/iddi hi.

(3) Os bydd cynnwrf cyffredinol yn unrhyw ran o'r ystafell lle mae cyfarfod yn cael ei gynnal a hwnnw'n agored i'r cyhoedd, bydd y sawl sy'n llywyddu yn gorchymyn i'r rhan honno gael ei gwagio a gall ohirio'r cyfarfod am bymtheng munud neu am gyfnod sy'n ymddangos yn briodol iddo ef/iddi hi.

(4) Mae'r pwerau a roddir gan y rheol sefydlog hon yn ychwanegol at unrhyw bwerau eraill y gall y sawl sy'n llywyddu eu defnyddio yn ôl y gyfraith.

<u>RHEOL SEFYDLOG 23: PLEIDLEISIO</u>

<u>Rhannau o'r Statudau</u>

Yn amodol ar ddarpariaeth unrhyw ddeddf ... rhaid i bob cwestiwn sydd yn dod, neu a godir, gan awdurdod lleol gael ei benderfynu gan fwyafrif o aelodau'r awdurdod sydd yn bresennol ac sydd yn pleidleisio mewn cyfarfod o'r awdurdod.

Yn amodol ar y darpariaethau hynny, os bydd nifer y pleidleisiau'n hafal, bydd gan y sawl sy'n llywydd yn y cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

(Deddf 1972, Atod 12, para 39)

(1) Ac eithrio yn unol â darpariaeth y rheol sefydlog hon, y dull o bleidleisio yng nghyfarfodydd yr awdurdod, pwyllgorau, ac is-bwyllgorau fydd dangos dwylo.

(2) Os gwneir cais gan y nifer priodol o aelodau, cyn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn, rhaid cofnodi'r bleidlais ar y mater hwnnw er mwyn dangos a oedd pob aelod a oedd yn bresennol wedi bwrw ei bleidlais/phleidlais o blaid neu yn erbyn y mater hwnnw neu wedi atal ei bleidlais/phleidlais.

(3) Y nifer briodol o aelodau yw: 1/3 o aelodaeth yr awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor fel y bo'n briodol.

(4) Yn union ar ôl i'r bleidlais gael ei chymryd ar unrhyw fater, caiff unrhyw aelod â phleidlais fynnu, mewn perthynas â'r bleidlais honno, bod y cofnodion yn dangos a bleidleisiodd yr aelod hwnnw/honno o blaid y mater neu yn erbyn neu a ataliodd ei bleidlais/phleidlais.

(5) Trwy bleidlais gudd y penodir cadeirydd neu <u>dirprwy gadeirydd</u> yr awdurdod neu bwyllgor (ond nid o reidrwydd is-bwyllgor) neu staff.

**Deleted:** is-gadeirydd

(6) Lle bo mwy na dau berson wedi eu henwebu am unrhyw safle neu swydd gyda'r awdurdod neu bwyllgor neu is-bwyllgor, a lle nad oes mwyafrif o'r pleidleisiau a fwriwyd o blaid un ohonynt,

rhaid tynnu enw'r person a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau oddi ar y rhestr a chymryd pleidlais arall, ac felly ymlaen, hyd nes bwrir mwyafrif o'r pleidleisiau o blaid un person. Nid yw rheol sefydlog 1(2) yn gymwys ar gyfer dehongli "y person a gafodd y nifer lleiaf o bleidleisiau" yn y paragraff hwn. Mewn etholiadau am fwy nag un swydd, bydd pleidleisiau a fwriwyd dros lai o ymgeiswyr na nifer y swyddi gwag yn annilys.

RHEOL SEFYDLOG 24: PRESENOLDEB

Rhaid i bob aelod sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor lofnodi ei (h)enw yn y llyfr presenoldeb neu ar y daflen bresenoldeb a ddarperir i'r diben hwnnw.

## RHAN V : DATGAN DIDDORDEBAU

RHEOL SEFYDLOG 25: DIDDORDEBAU AELODAU MEWN CONTRACTAU A MATERION ERAILL

(1) Lle bo gan unrhyw aelod fuddiant personol mewn mater sydd i'w ystyried mewn cyfarfod o'r awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor, rhaid iddo ef/iddi hi ddatgan y buddiant hwnnw pan drafodir datganiad o ddiddordebau ar yr agenda neu cyn gynted ag y daw'r buddiant i'r amlwg. Rhaid cofnodi unrhyw ddatganiad o'r fath yng nghofnodion y cyfarfod.

Deleted: cyn i'r mater

Deleted: gael ei ystyried neu pan ddaw'r

(2) Yn unol â chod ymddygiad yr Awdurdod Tân ragnodir dan adrannau 50 ac 81 o Ddeddf 2000, lle bo'r buddiant personol y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn un lle bo angen i'r aelod dynnu ei hun o ystyried y mater, rhaid i'r aelod adael yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod tra ystyrir y mater oni bai fod Pwyllgor Safonau'r awdurdod wedi rhoi caniatâd iddo ef/iddi hi aros dan adran 81(4) o Ddeddf 2000 neu os nad fod un o'r eithriadau o dan y cod ymddygiad yn berthnasol.

Deleted: 'r

Deleted: enghreifftiol a

(3) Rhaid i unrhyw berson, heblaw am swyddog o'r awdurdod, sydd wedi ei benodi/phenodi i wneud unrhyw beth mewn cysylltiad â phwyllgor neu is-bwyllgor, sy'n ei (g)alluogi ef/hi i siarad mewn cyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw, wneud yr un datganiadau o fuddiant personol, a rhaid iddo ef/iddi hi adael yr ystafell lle cynhelir y cyfarfod ar yr un adegau ag y byddai'n rhaid iddo ef/iddi hi wneud petai'n aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

RHEOL SEFYDLOG 26: DIDDORDEBAU SWYDDOGION MEWN CONTRACTAU A MATERION ERAILL

(1) Yn ogystal â'i (d)dyletswydd dan adran 117, Deddf 1972 os daw'n hysbys i unrhyw swyddog o'r awdurdod fod ganddo ef/ganddi hi fuddiant personol sydd i'w ddatgelu mewn unrhyw gontract y mae'r awdurdod wedi ei wneud neu y mae'n bwriadu ei wneud, neu mewn rhyw fater arall sydd i'w ystyried gan yr awdurdod neu unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor, heb fod (yn y naill achos na'r llall) y contract cyflogaeth (os oes un) sydd ganddo ef/ganddi hi i wasanaethu'r awdurdod, rhaid iddo ef/iddi hi roi rhybudd ysgrifenedig mor fuan ag sy'n ymarferol i'r swyddog priodol o'r ffaith fod ganddo ef/ganddi hi fuddiant ynddo.

(2) I ddibenion y rheol sefydlog hon, buddiant personol sydd i'w ddatgelu yw buddiant y byddai'n rhaid i'r swyddog, petai'n aelod o'r awdurdod a phetai'r contract neu fater arall i'w ystyried mewn cyfarfod o'r awdurdod lle byddai'n bresennol, ei (d)datgelu yn unol ag Adran 81 o Ddeddf 2000.

(3) Rhaid i'r swyddog priodol gofnodi mewn llyfr a gedwir i'r diben hwnnw fanylion unrhyw rybudd o fuddiant personol a roddir gan swyddog o'r awdurdod dan adran 117, Deddf 1972 neu baragraff (1). Rhaid i'r llyfr fod yn agored i'w archwilio gan aelod o'r awdurdod yn ystod oriau arferol swyddfa.

(4)  Lle bo swyddog yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod ar fater y mae wedi datgan buddiant ynddo dan adran 117, Deddf 1972 neu baragraff (1), rhaid iddo ef/iddi hi ddatgan bod datganiad o'r fath wedi ei wneud, a rhoi manylion bras ohono, mewn paragraff ar ei ben ei hun ar ddechrau'r adroddiad.

(5)  Lle bo unrhyw swyddog yn cynghori cyfarfod o'r awdurdod, pwyllgor neu is-bwyllgor ar lafar ynglŷn â chontract, grant, contract arfaethedig neu fater arall ac yntau/hithau wedi datgan buddiant personol yn y mater hwnnw, boed dan ofynion adran 117 o Ddeddf 1972, neu baragraff (1), rhaid iddo ef/iddi hi atgoffa'r cyfarfod yn llafar am y buddiant hwnnw.

RHEOL SEFYDLOG 27: CANFASIO

(1)  Os bydd ymgeisydd yn canfasio unrhyw aelod o'r awdurdod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am unrhyw benodiad dan yr awdurdod, caiff yr ymgeisydd ei anghymhwyso ar gyfer y penodiad hwnnw.  Rhaid cynnwys byrdwn y rheol hon ymhob hysbyseb sy'n gwahodd ceisiadau am swyddi neu mewn unrhyw fath o gais.

(2)  Ni chaiff aelod o'r awdurdod am unrhyw reswm geisio unrhyw swydd dan yr awdurdod dros neb, ac ni chaniateir i aelod roi geirda ysgrifenedig am allu, profiad neu gymeriad ymgeisydd, i'w gyflwyno gyda chais am benodiad i swydd dan yr awdurdod.

**RHAN VI: AMRYWIOL**

RHEOL SEFYDLOG 28: SÊL YR AWDURDOD

(1)  Rhaid cadw sêl gyffredin yr awdurdod mewn lle diogel dan ofal y Prif Swyddog Tân.

(2)  Ni chaniateir gosod sêl yr awdurdod ar ddogfen ond gydag awdurdod:

(a) penderfyniad o eiddo'r awdurdod;

(b) penderfyniad pwyllgor neu is-bwyllgor a gafodd yr hawl gan yr awdurdod i awdurdodi defnyddio'r sêl;

(c) penderfyniad gan yr awdurdod, neu gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog a awdurdodwyd yn briodol i wneud unrhyw beth lle bo angen dogfen dan y sêl gyffredin i gwblhau'r gwaith.

(3)  Pan osodir y sêl gyffredin rhaid i'r swyddog priodol neu ddirprwy a awdurdodwyd mewn ysgrifen gan y swyddog priodol dystio i hyn.  Rhaid cofnodi pob tro y caiff dogfen ei selio, a'u rhifo y naill ar ôl y llall mewn llyfr a gedwir i'r diben hwn, a rhaid i'r sawl fydd wedi tystio i'r selio lofnodi.

RHEOL SEFYDLOG 29: TYSTIO I DDOGFENNAU

Yn ogystal ag unrhyw berson arall a awdurdodir trwy benderfyniad yr awdurdod i'r diben hwn, y swyddog priodol i ddibenion adran 234, Deddf 1972 (dilysu dogfennau) fydd y Clerc i'r Awdurdod neu unrhyw swyddog a awdurdodir mewn ysgrifen gan y swyddog hwnnw.

ARGYMELL DILEU.  NID YW'N BERTHNASOL?

RHEOL SEFYDLOG 31: MYNEDIAD AT DDOGFENNAU, GWYBODAETH A THIR

Rhannau o'r Statudau

**Deleted:** RHEOL SEFYDLOG 30: PAPURAU A CHYNGOR¶
¶
(1)  Rhaid anfon copi o bob papur a ddanfonir at aelodau i'w hystyried mewn cyfarfod o bwyllgor neu is-bwyllgor at brif swyddogion yr awdurdod sy'n ymwneud â gwaith y pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.¶
¶
(2)  Y Clerc mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Tân fydd yn penderfynu pa brif swyddogion sy'n ymwneud â gwaith unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor.¶
¶
(3)  Cyn iddynt gwblhau ystyried unrhyw fater, rhaid i bob pwyllgor ac is-bwyllgor roi cyfle i brif swyddog sydd â hawl i dderbyn papurau dan y rheol sefydlog hon (neu swyddog arall a enwebir ganddo ef/ganddi hi) roi cyngor ar y mater hwnnw, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, os bydd y prif swyddog yn gofyn am y cyfle hwnnw.¶
¶
(4)  Lle bo'r Awdurdod yn ystyried mater nad yw wedi ei ystyried o'r blaen gan bwyllgor neu is-bwyllgor ac na chafwyd adroddiad arno gan y corff hwnnw i'r Awdurdod, rhaid i'r sawl sy'n llywyddu yn y cyfarfod lle mae'r mater dan ystyriaeth sicrhau nad yw'r cwestiwn yn cael ei roi i bleidlais cyn i unrhyw brif swyddog (gan gynnwys pennaeth gwasanaethau taledig yr awdurdod) y mae ei gyfrifoldebau'n ymwneud â'r mater dan ystyriaeth ac sy'n gofyn am gyfle o'r fath, fod wedi cael y cyfle iddo ef/iddi hi neu ei gynrychiolydd/chynrychiolydd gynghori'r Awdurdod ar y mater.¶
¶
(5)  Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Cynllun Iaith Gymraeg yr Awdurdod, rhaid i bob agenda, adroddiad a dogfen arall a gynhyrchir gan yr awdurdod ei hun ar gyfer unrhyw gyfarfod o'r awdurdod fod yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhaid i unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth prif gyngor ac sy'n cynnwys deunyddiau sy'n ymwneud ag unrhyw fusnes i'w drafod mewn cyfarfod o'r cyngor, yn amodol ar [y ddarpariaeth sy'n dilyn], fod yn agored i'w archwilio gan unrhyw aelod o'r cyngor.

Lle ei bod yn ymddangos i swyddog priodol y cyngor fod dogfen yn datgelu gwybodaeth eithriedig o fath, sydd ar y pryd, yn syrthio o fewn unrhyw un o baragraffau 1 i 6, 9, 11, 12 a 14 o Ran 1 o Atodlen 12A o'r Ddeddf hon, [y ddarpariaeth flaenorol] nid oes raid i'r ddogfen fod yn agored i'w harchwilio.

(Deddf 1972, Adran 100F(1) a (2))

(1) Yn ogystal â hawliau aelodau o'r awdurdod o dan adran 100F o Ddeddf 1972, ond yn amodol ar baragraff (2) isod, bydd gan y bobl ganlynol yr hawl i wneud cais i'r swyddog priodol i weld unrhyw ddogfen neu am gael mynediad i unrhyw wybodaeth arall o'r mathau canlynol:

(a) unrhyw aelod o'r awdurdod neu aelod arall (boed â'r hawl i bleidleisio ai peidio) o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor:

(i) unrhyw ddogfen sydd ym meddiant neu dan reolaeth yr awdurdod sy'n ymwneud ag unrhyw fater y mae pwyllgor neu is-bwyllgor y mae ef/hi yn aelod ohono yn cyflawni swyddogaeth sydd gan yr awdurdod neu'n cynghori'r corff a'u penododd hwy;

(ii) unrhyw wybodaeth arall a gofnodwyd, heb fod ar ffurf dogfen, sydd ym meddiant neu dan reolaeth yr awdurdod, sydd yn angenrheidiol iddo ef/iddi hi gyflawni'i swyddogaethau'n briodol fel aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath;

(b) unrhyw aelod o'r awdurdod:

unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall a gofnodwyd sydd ym meddiant neu dan reolaeth yr awdurdod y mae angen mynediad ati er mwyn iddo ef/iddi hi gyflawni ei swyddogaethau fel aelod o'r awdurdod; ar yr amod:

(i) ni chaiff neb archwilio unrhyw ddogfen na chael mynediad at unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â mater y mae ganddo ef/ganddi hi fuddiant personol ynddo;

(ii) gellir gwrthod hawl i rywun archwilio dogfen o fewn paragraff (a)(i) nad oes angen iddo ef/iddi hi ei archwilio er mwyn cyflawni ei swyddogaethau fel aelod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor dan sylw, os oes rheswm da pam y dylid gwrthod hawl i archwilio yn y modd hwnnw;

(iii) nid oes angen rhoi mynediad i wybodaeth ar ffurf dogfen lle bo'r gost o ddarparu mynediad yn afresymol o uchel, neu yn ystod cyfnod pan fyddai rhoi mynediad yn tarfu'n afresymol ar waith yr awdurdod.

(2) Yn achos unrhyw ddogfen ar wahân i ddogfen y mae hawliau dan adran 100F o Ddeddf 1972 i'w cymhwyso iddi ac mewn unrhyw achos lle ceir gwybodaeth nad yw ar ffurf dogfen, os yw'r swyddog priodol yn ystyried nad oes angen mynediad at unrhyw ddogfen na gwybodaeth arall er mwyn cyflawni swyddogaethau'r sawl sy'n gofyn am y mynediad hwnnw (fel aelod o'r awdurdod neu aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor, fel y bo'n briodol), ac os oes rheswm da pam y dylid gwrthod mynediad, caniateir iddo ef/iddi hi wrthod mynediad i'r sawl dan sylw at y ddogfen neu'r wybodaeth dan sylw.

(3) Lle bod rhywun yn archwilio dogfen dan yr hawliau a roddir dan adran 100F o Ddeddf 1972 neu'r rheol sefydlog hon, a lle bo gan yr awdurdod hawl gyfreithiol i wneud copi o'r ddogfen honno, bydd ganddo ef/ganddi hi hawl i gael copi o'r ddogfen honno os bydd yn gofyn amdani:

ar yr amod

(a) rhaid codi tâl rhesymol am y copi oni bai fod y swyddog priodol yn dweud yn wahanol;

(b) caniateir gwrthod copi os bydd y swyddog priodol yn credu ei bod yn anymarferol gwneud copi.

(4) Os bydd unrhyw aelod o'r awdurdod neu unrhyw aelod arall (boed â'r hawl i bleidleisio ai peidio) o bwyllgor neu is-bwyllgor yn dymuno cael mynediad i dir neu adeiladau sydd ym meddiant y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r rheini'n rhai nad oes gan y cyhoedd fynediad iddynt neu rai nad oes gan aelodau o'r awdurdod fynediad iddynt fel rheol, caiff ef/hi wneud cais i'r Prif Swyddog Tân. Oni bai fod y Prif Swyddog Tân o'r farn bod rheswm da dros wrthod mynediad, rhaid iddo ef/iddi hi roi caniatâd ond gall osod amodau ar y caniatâd hwnnw gan gynnwys, yn arbennig amod bod swyddog penodedig o'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd gyda'r aelod.

(5) Os bydd unrhyw aelod o'r awdurdod neu unrhyw aelod arall o bwyllgor neu is-bwyllgor yn anfodlon ag unrhyw benderfyniad a wnaed gan y swyddog priodol dan adran 100F o Ddeddf 1972 neu dan y rheol sefydlog hon, gall ef/hi gyfeirio'r cwestiwn i gyfarfod nesaf yr awdurdod, a bydd y cyfarfod hwnnw, ar ôl ystyried unrhyw sylwadau y mae ef/hi neu'r swyddog priodol yn dymuno eu gwneud, yn penderfynu a ddylid cefnogi penderfyniad y swyddog priodol ai peidio.

(6) Ni fydd gan unrhyw aelod o'r awdurdod nac unrhyw aelod arall (boed â hawl i bleidleisio ai peidio) o bwyllgor neu is-bwyllgor unrhyw hawl yn rhinwedd ei swydd:

(a) i fynd i dir neu adeiladau sydd ym meddiant yr awdurdod nad oes gan y cyhoedd fynediad iddynt neu nad oes gan aelodau o'r awdurdod fynediad iddynt fel rheol heblaw gyda chaniatâd y Prif Swyddog Tân y meddiennir y tir neu'r adeiladau er ei fwyn;

(b) i arfer unrhyw bŵer sydd gan yr awdurdod i fynd i dir neu adeiladau eraill neu eu harchwilio, heblaw lle rhoddir caniatâd penodol gan yr awdurdod i wneud hynny;

(c) i arfer unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod;

(ch) rhoi unrhyw orchymyn ynglŷn ag unrhyw waith a wneir gan yr awdurdod neu ar ei ran, neu mewn perthynas ag unrhyw nwyddau neu wasanaethau a brynir gan yr awdurdod, neu y gallai eu prynu.

(7) I ddibenion y 'rheol sefydlog' hon mae gan berson fuddiant personol mewn mater os, petai ef/hi yn aelod o'r awdurdod a'r mater i'w ystyried gan yr awdurdod, byddai'n rhaid iddo ef/iddi hi ddatgan diddordeb yn unol ag adran 81 o Ddeddf 2000.

(8) Lle rhoddir gwybodaeth i unrhyw berson (gan gynnwys aelod o'r awdurdod neu unrhyw aelod arall o bwyllgor neu is-bwyllgor) gan yr awdurdod neu gan un o'i weithwyr wrth ymdrin ag unrhyw fusnes o eiddo'r awdurdod, a lle gwneir yn glir (ym mha fodd bynnag) fod yr wybodaeth wedi ei rhoi yn gyfrinachol, nid oes gan y person hwnnw hawl i gyhoeddi'r wybodaeth honno heb ganiatâd yr awdurdod.

Atodiad 1

Y Prif Swyddog Tân
Y Dirprwy Brif Swyddog Tân
Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol
Y Trysorydd
Y Clerc a'r Swyddog Monitro
Y Dirprwy Glerc a'r Swyddog Monitro

Nodiadau :
Atodiad 1 i gynnwys Strwythur Swyddogion yr Awdurdod, enwau a'u cyfrifoldebau (fel ag awgrymwyd yn 1 (1) uchod

Holl rifau i'w newid wedi i'r newidadau arfaethedig gael eu derbyn.

| Page 11: [1] Deleted | alwen.davies | 12/06/2012 14:49:00 |
|---|---|---|

RHEOL SEFYDLOG 17: CYFEIRIO PENDERFYNIADAU YN UWCH

(1) Lle y pleidleisiwyd ar fater perthnasol gan bwyllgor neu is-bwyllgor ac, yn union ar ôl datgan canlyniad y bleidlais, cynigir penderfyniad dan y rheol sefydlog hon a'i gymeradwyo gan ddim llai na chwarter yr aelodau â phleidlais sydd yn bresennol ar y pryd, rhaid ei gyfeirio –

(a) yn achos penderfyniad pwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf yr awdurdod; ac

(b) yn achos penderfyniad gan is-bwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf y pwyllgor ("y pwyllgor priodol") a ffurfiodd yr is-bwyllgor hwnnw.

(2) Ni ddaw penderfyniad ar fater dan baragraff (1) i rym nes cael ei adolygu a'i gymeradwyo:

(a) gan yr awdurdod, lle gwnaed y penderfyniad gan bwyllgor; a

(b) gan y pwyllgor priodol, lle gwnaed y penderfyniad gan is-bwyllgor.

(3) Ni ddehonglir dim ym mharagraff (1) na (2) uchod fel ag i rwystro mater a gyfeirir i bwyllgor (ac eithrio cydbwyllgor) dan baragraff (1)(b) rhag cael ei gyfeirio gan pwyllgor hwnnw i'r awdurdod dan baragraff (1)(a).

(4) Ym mharagraff (1) uchod, ystyr mater perthnasol yw mater sy'n codi mewn perthynas â swyddogaethau sydd yn cael eu cyflawni gan:

(a) bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod yn ôl trefniadau a wnaed dan adran 101 o Ddeddf 1972;

a heblaw am:

fater sy'n ymwneud â phenodi, disgyblu neu ddiswyddo swyddog o'r awdurdod;

mater y mae'r pwyllgor neu (fel y bo'n briodol) yr is-bwyllgor wedi gwrando ar sylwadau yn ei gylch gan unrhyw berson heblaw am aelod neu swyddog o'r awdurdod.

(5) Os bydd 5 aelod o'r awdurdod yn rhoi rhybudd ysgrifenedig dan y rheol sefydlog hon i'r swyddog priodol ddim hwyrach nag wythnos ar ôl y cyfarfod lle gwnaed y penderfyniad eu bod yn dymuno i benderfyniad ar fater perthnasol gael ei gyfeirio yn uwch, bydd yn cael ei gyfeirio:

(a) yn achos penderfyniad pwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf yr awdurdod;

(b) yn achos penderfyniad is-bwyllgor, i gyfarfod cymwys nesaf y pwyllgor perthnasol.

Ni ddaw penderfyniad ar fater a gyfeiriwyd dan y paragraff hwn i rym hyd nes cael ei adolygu a'i gymeradwyo:

(a) gan yr Awdurdod, yn achos penderfyniad pwyllgor;

(b) gan y pwyllgor perthnasol, yn achos penderfyniad is-bwyllgor.